**Cynhadledd Dyfodol i'r Iaith**

# "Cynaliadwyedd a'r Gymraeg"

**Sicrhau lle canolog i'r Gymraeg yn agenda cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru**

Dydd Gwener, 22 Chwefror 2013, Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor

**Trefn y dydd**

| | |
|---|---|
| 10.00 | Cyrraedd, cofrestru a phaned |
| 10.30 | **Einir Young**, Cadeirydd y gynhadledd (Prifysgol Bangor) – 'Beth sydd a wnelo cynaliadwyedd â'r iaith? Cyflwyniad i amcanion y gynhadledd' |
| 11.00 | **Gareth Wyn Jones** (Prifysgol Bangor) – 'Cyfalafiaeth, cynaliadwyedd ac iaith' |
| 11.30 | Coffi |
| 12.00 | **Meirion Llywelyn** (Menter Iaith Conwy) – 'Gwneud y Gymraeg yn gynaliadwy – beth yw'r nod a sut mae ei chyrraedd?' |
| 12.30 | **Gareth Clubb** (Cyfeillion y Ddaear) – 'Yr amgylchedd a'r Gymraeg – oes yna gyswllt?' |
| 13.00 | Cinio |
| 14.00 | **Llŷr Huws Gruffydd** (Aelod Cynulliad Gogledd Cymru) – 'Cynlluniau Datblygu Lleol' |
| 14.30 | **Emyr Lewis** (Dyfodol i'r Iaith) – 'Sut gall Dyfodol ddylanwadu ar y Bil Cynaliadwyedd a'r Bil Cynllunio' |
| 15.00 | Trafodaeth: Y ffordd ymlaen |
| 16.00 | DIWEDD |

# Cymunedau Cymraeg Cynaliadwy

Beth yw datblygu cynaliadwy a beth sydd a wnelo  â'r Gymraeg?

Y gwir amdani yw fod gan adar a rhywogaethau prin yn aml fwy o 'hawliau' na phobl. Gwae'r unigolyn sy'n anwybyddu clwydi ystlumod wrth ddatblygu ond 'eithafwr' yw'r person sy'n meiddio crybwyll y gall stad ychwanegol o dai gael effaith negyddol ar iaith a diwylliant lleol.

Cyn hir fe fydd y Bil Datblygu Cynaliadwy ar ei ffordd drwy'r Senedd. Yn y Papur Gwyn, cyfeirir at 'gynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol'.  A fydd peidio â chyfeirio'n benodol at y Gymraeg yn gwanhau'r Bil o safbwynt yr iaith? Cred Dyfodol y dylid cyfeirio'n benodol at y Gymraeg yn y Bil ac un o nodau'r gynhadledd hon yw trafod beth a ddylid ei gynnwys a sut mae mynd ati i ddylanwadu ar y broses.

At hyn, mae'r broses gynllunio yng Nghymru'n destun pryder. Mae nifer y tai mae disgwyl i gynghorau lleol eu codi trwy Gynlluniau Datblygu Lleol yn rhy uchel o lawer. Sut mae taclo'r broblem hon? Oes modd dylanwadu ar y Bil Cynllunio a fydd hefyd ar ei ffordd trwy'r Senedd cyn hir?

Oes perthynas rhwng y grymoedd sy'n tanseilio'r iaith, yn creu diweithdra ac yn difa bywyd gwyllt? Mewn undeb mae nerth a byddwn yn gofyn a oes cyfle i'r rhai sy'n poeni am yr elfennau hyn gynghreirio o dan fantell datblygu cynaliadwy er budd yr economi ac iaith Cymru yn ogystal â'r blaned.

Mae'r cwbl yn cynnwys trafod yr heriau economaidd sy'n ein wynebu yn ogystal â chlywed profiadau o lawr gwlad ac elwa o brofiad a chyngor cyfreithiol a gwleidyddol.

Fe fydd cyfleoedd yn dilyn pob sesiwn i gyfrannu i'r drafodaeth o'r llawr, a thrafodaeth awr sy'n agored i bawb ar ddiwedd y gynhadledd er mwyn cynllunio strategaeth ar gyfer y ffordd ymlaen.

Ar ddiwedd y gynhadledd un o'n prif allbynnau fydd drafft o ymateb ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i'w gyflwyno ar ran Dyfodol erbyn y dyddiad cau ar Fawrth 4ydd 2013.

# Cefndir

Mae llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gyfreithiol i greu cynllun (cynllun datblygu cynaliadwy) sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth ymarfer eu swyddogaethau. *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* yw'r cynllun cyfredol.

Ar Ragfyr 3ydd wedi cyfnod o ymgynghoriad mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy. Bydd y Bil hwn yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau mai Datblygu Cynaliadwy yw eu hegwyddor drefniadol ganolog. Bwriedir sefydlu corff Datblygu Cynaliadwy annibynnol yn sgil y Bil, i ddarparu cefnogaeth ynghylch datblygu cynaliadwy er mwyn adlewyrchu buddion ac anghenion Cymru.

Bu cryn dipyn o drafod eisoes ar ystyr Datblygu Cynaliadwy gyda llawer yn ystyried naill ai 'cynaliadwyedd amgylcheddol' neu 'gynaliadwyedd economaidd' fel blaenoriaethau. Ar ei symlaf, ceisio cydbwysedd hir dymor rhwng amryfal anghenion pobl heb reibio'r blaned. Yn y Papur Gwyn disgrifir datblygu cynaliadwy yng Nghymru fel a ganlyn:

**Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru**

*Yng nghyd-destun Cymru, mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:*

*- mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;*
*- mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.*

*Datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd*

Mae'r Papur Gwyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/sdbill/?skip=1&lang=cy o dan ddolenni cysylltiedig ar yr ochr dde. Byddai'n fuddiol petaech yn gallu ei ddarllen cyn y cyfarfod ac yn bwrw golwg dros y cwestiynau ymgynghorol.

Mae Dyfodol yn nodi fod yr ymgynghoriad ar gynllun iaith drafft Cyfoeth Naturiol Cymru ar agor hefyd rhwng 8fed Ionawr a 5ed Mawrth yn berthnasol i'r drafodaeth hon hefyd. Dyma'r corff newydd fydd yn dod i fodolaeth ar Ebrill 1 2013, wrth i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ddod at ei gilydd.

(http://www.ccgc.gov.uk/about-ccw/consultations/draft-welsh-language-scheme.aspx?lang=cy-gb)./

# Cofrestru

Cofiwch y gallwch gofrestru ar y dydd ar gyfer y gynhadledd rhad ac am ddim hon!

Ond er mwyn inni gael syniad o niferoedd, byddai'n help pe gallech gofrestru ymlaen llaw trwy anfon nodyn at post@dyfodol.net

Mae modd hefyd archebu cinio ymlaen llaw am £10 yn unig, a thalu ar y dydd.

Ceir manylion o ran sut i gyrraedd Neuadd Reichel yma: http://www.bangor.ac.uk/tour/MapLleoliad.pdf Y côd post yw LL57 2TR.

Os am gofrestru trwy'r post, anfowch at Dyfodol, 25 Ael y Bryn, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 2HB

**Enw:**

**Ebost:**

**Sefydliad (does dim rhaid enwi sefydliad):**

*Hoffwn archebu cinio am £10 (talu ar y dydd): Ie/Na*

Croeso i bawb!

Trefnwyd y gynhadledd hon gan Dyfodol i'r Iaith Cyf. ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor drwy Rwydwaith Wise sydd wedi ei ariannu drwy'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (www.wisenetwork.org)

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Wise NETWORK
Sefydliad Amgylcheddau Cynaliadwy Cymru
Welsh Institute for Sustainable Environments

ERDF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund